

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Mae'r Polisi hwn yn amlinellu ymrwymiad Blake Morgan i'n treftadaeth Gymreig a'r ffyrdd rydym yn cefnogi ein cleientiaid a'n cydweithwyr sy'n dymuno cyfathrebu drwy'r Gymraeg.
- 1.2. Mae Blake Morgan yn cydnabod bod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 1.3. Cydnabyddwn bwysigrwydd y Gymraeg ac anogwn y sawl sy'n siarad Cymraeg i'w defnyddio yn eu hymwneud o ddydd i ddydd â chydweithwyr a chleientiaid y mae'n well ganddynt siarad Cymraeg. Credwn fod darparu gwasanaethau yn newis iaith ein cleientiaid yn arfer busnes da. Credwn hefyd ei fod yn dangos parch at ein gweithlu i hybu a hwyluso'r defnydd o'u dewis iaith yn y gweithle. Rydym hefyd yn awyddus i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.
- 1.4. Sicrhawn ein bod yn gwneud cynnydd cyson tuag at gyflawni'r uchelgais hon, ac mae'r Polisi hwn yn amlinellu'r camau ymarferol rydym eisoes wedi'u cymryd a'r gwelliannau rydym yn symud tuag atynt i'n helpu i ddatblygu ein defnydd o'r Gymraeg.
- 1.5. Dylid dehongli cwmpas ein hymrwymadau yn y polisi hwn yn rhesymol - maent yn ymwneud yn bennaf â gweithgareddau a gwasanaethau yng Nghymru neu sy'n cael eu darparu i bobl sy'n byw yng Nghymru (er y caiff gweithwyr a chleientiaid o thu allan i Gymru eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg) a chânt hefyd eu cyfyngu i weithgareddau a gwasanaethau y gallwn eu rheoli neu ddylanwadu arnynt.
- 1.6. Mae'r Polisi hwn ar gael i bobl aelod o staff ar fewnryd y Cwmni waeth beth fo'u lleoliad cytundebol.

2. HYRWYDDWR YR IAITH GYMRAEG A CHYMORTH

- 2.1. Mae'r Cwmni wedi penodi (a bydd yn ymdrechu i barhau i benodi) aelod o staff i fod yn Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg. Bydd Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg yn adrodd i Dîm Gweithrediadau Canolog y Cwmni ("COT") a bydd yn gyfrifol am:
 - 2.1.1. adolygu'r Polisi hwn a defnydd y Cwmni o'r Gymraeg;
 - 2.1.2. monitro gweithrediad y Polisi hwn gan y Cwmni a pharatoi adroddiad blynyddol i'r COT;
 - 2.1.3. hyrwyddo a chynyddu argaeledd gwasanaethau Cymraeg a gynigir gan y Cwmni;
 - 2.1.4. cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle; a
 - 2.1.5. hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol o fewn y Cwmni ac yn allanol i'w gleientiaid a chysylltiadau eraill.

2.2. Hyrwyddwr presennol yr Iaith Gymraeg yw:

Tomos Lewis – Cyfarwyddwr Cyfreithiol

tomos.lewis@blakemorgan.co.uk

029 2068 6145

07990 030 728

2.3. Caiff y polisi hwn ei gefnogi ar y lefel uchaf yn y Cwmni ac mae wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Gweithrediadau'r Cwmni a'i gefnogi gan y Bwrdd Strategaeth (sy'n cynnwys siaradwyr Cymraeg).

2.4. Bydd y Cwmni yn gweithio tuag at gyflawni "Cynnig Cymraeg" Comisiynydd y Gymraeg cyn gynted â phosibl.

3. CYFATHREBU Â'N CLEIENTIAID A'N CYDWEITHWYR A'R GYMUNED EHangach

3.1. Cydnabyddwn fod gan ein cleientiaid a phob un o'n cydweithwyr y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg os dymunant wneud hynny. Disgwyliwn i staff barchu dewisiadau ieithyddol ein cleientiaid a'u cydweithwyr.

3.2. Cefnogwn a hwyluswn y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg gan ein cleientiaid a'n cydweithwyr yn y gweithle drwy greu cyfleoedd i gleientiaid a staff ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd os dymunant wneud hynny.

3.3. Mae gan y Cwmni nifer o weithwyr ar draws y rhan fwyaf o feysydd ymarfer sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu darparu gwasanaethau i gleientiaid i'r un safon yn Gymraeg neu yn Saesneg.

3.4. Gall ein cleientiaid ofyn am gael siarad â siaradwr Cymraeg a byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i ddiwallu eu hanghenion. Os nad oes siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i siaradwr Cymraeg gysylltu â'r cleient cyn gynted â phosibl.

3.5. Mae croeso i'n cleientiaid ysgrifennu atom yn Gymraeg a phan wnânt hynny, bydd ein hymateb hefyd yn Gymraeg. Ni chaiff ein hymateb ei oedi o ganlyniad.

3.6. Rydym yn awyddus i gefnogi digwyddiadau yn ein cymunedau sy'n annog defnydd o'r Gymraeg.

4. ADNABOD A DATBLYGU EIN SET SGILIAU CYMRAEG

4.1. Croesawn ac anogwn ddefnydd o'r Gymraeg gan ein cydweithwyr sy'n rhugl yn y ddwy iaith neu'n ddysgwyr Cymraeg.

4.2. Cadwn gofnod o weithwyr sy'n siarad Cymraeg a'u rhuglder fel y gallwn gynnig cyngor cyfreithiol i'r sawl sydd well ganddynt siarad neu dderbyn cyngor ysgrifenedig yn Gymraeg.

- 4.3. Rhannwn wybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg pob gweithiwr yn y gweithle, fel y gallwn gyfeirio ymholiadau Cymraeg at y person priodol yn ogystal ag yn allanol (gan gynnwys cyhoeddi manylion o'r fath ar wefan y Cwmni [yn www.blakemorgan.co.uk](http://www.blakemorgan.co.uk)).
- 4.4. Cynigiwn y cyfle i bob gweithiwr ddysgu Cymraeg, waeth beth fo lleoliad eu prif swyddfa. Caiff ein Gwersi Cymraeg eu dysgu gan ddefnyddio meddalwedd fideogynadledda a darparwn ar gyfer pob lefel o ruglder, gan ganiatáu i unrhyw un gymryd rhan.
- 4.5. Croesawn geisiadau yn Gymraeg ac anogwn gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg i ymuno â ni. Lle bo modd, byddwn hefyd yn cynnal cyfweiliadau ar gyfer ein swyddi gwag yn Gymraeg os gofynnir am hynny.
- 4.6. I helpu cydweithwyr a chleientiaid i adnabod gweithwyr sy'n siarad Cymraeg, mae'r Cwmni yn annog staff sy'n siarad Cymraeg (gan gynnwys y sawl sy'n dysgu Cymraeg) i ddefnyddio cynllun "Iaith Gwaith" Comisiynydd y Gymraeg a'i fathodyn swigen siarad oren i ddangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Bydd hyn yn helpu i ddangos lle gellir defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau o ddydd i ddydd, gan annog siaradwyr a dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg yn amlach. Gallai hyn gynnwys gwisgo daliwr cortyn gwddf iaith Gwaith yn y gweithle, gan gynnwys logo iaith Gwaith ar broffil gwefan yr unigolyn neu gynnwys unrhyw un o'r darnau testun canlynol yn llofnod e-bost yr unigolyn:

Hapus i ymateb yn y Gymraeg neu yn Saesneg | Happy to respond in Welsh or English

neu

Rwyf yn dysgu Cymraeg. Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu yn Saesneg. | I am learning Welsh. Please write to me in Welsh or in English.

5. GWEFAN, TG A CHYFRYNGAU CYMDEITHASOL.

- 5.1. Mae ein gwefan eisoes yn cynnwys rhai tudalennau yn Gymraeg a bwriadwn gynyddu nifer y tudalennau sydd gennym yn Gymraeg drwy gyflwyno tudalen Gymraeg sy'n manylu ar ein cynnig Cymraeg.
- 5.2. Caniatawn i'n staff osod rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer meddalwedd y maent yn ei ddefnyddio sydd â rhyngwyneb Cymraeg cydnabyddedig (fel Microsoft Office).
- 5.3. Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg yn ein cyfryngau cymdeithasol, lle bo'n briodol.

6. DOGFENNAETH A DEUNYDD HYRWYDDO

- 6.1. Bydd y Cwmni yn ceisio cynhyrchu fersiynau Cymraeg o ddogfennau a gwybodaeth berthnasol lle bo'n briodol. Er enghraifft, bydd y Cwmni yn ceisio sicrhau bod llythyrau ymgysylltu a thelerau busnes ar gael yn Gymraeg pan fydd cleientiaid yn gofyn amdanynt.
- 6.2. Caiff deunydd hyrwyddo a datganiadau i'r wasg eu creu yn ddwyieithog lle bo'n briodol.



7. YMDRIN Â'R CYFRYNGAU

7.1. Yn amodol ar gydymffurfio â Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cwmni, bydd y Cwmni, lle bo'n briodol i'r pwnc, yn rhyddhau datganiadau i'r wasg a/neu ddatganiadau i'w hargraffu a/neu eu darlledu yn Gymraeg a Saesneg yn ogystal â sicrhau bod siaradwr Cymraeg ar gael, pan fydd un ar gael, ar gyfer cyfweiliadau teledu a/neu radio.

8. HYSBYSEBU AC ARWYDDION

8.1. Pan gaiff arwyddion newydd eu gosod (neu pan gaiff hen arwyddion eu disodli) yn ein swyddfa yng Nghaerdydd, byddwn yn ceisio sicrhau bod arwyddion o'r fath yn gwbl ddwyieithog lle bo hynny'n briodol ac yn amodol ar gydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol neu reoleiddiol ar gyfer arwyddion o'r fath.

9. MONITRO AC ADOLYGU

9.1. Mae'r Cwmni yn cadw'r hawl i amrywio'r telerau ac amodau a nodir yn y Polisi hwn.

9.2. Caiff y polisi hwn ei adolygu'n gyson a chaiff ei fonitro gan y Tîm AD yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn deg ac yn effeithiol.

9.3. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch dehongli'r polisi hwn neu awgrymiadau ar gyfer ei wella at Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg neu at aelod o Grŵp Swyddfa Caerdydd yn y lle cyntaf.

1 INTRODUCTION

- 1.1 This Policy outlines Blake Morgan's commitment to our Welsh heritage and the ways we support our clients and colleagues who wish to communicate using the Welsh language.
- 1.2 Blake Morgan acknowledges that the Welsh language has official status in Wales and should be treated no less favourably than the English language.
- 1.3 We recognise the importance of the Welsh language and encourage those that speak Welsh to use it in their day-to-day dealings with both colleagues and clients who prefer to converse in Welsh. We believe that it is good business practise to provide services in the language of choice of our clients. We also believe that it shows respect to our workforce to encourage and facilitate the use of their chosen language in the workplace. We are also keen to promote the use of Welsh in the community.
- 1.4 We will ensure that we make constant progress towards achieving this ambition, and this Policy outlines the practical steps we have already taken and the improvements we are moving towards to help us develop our use of Welsh.
- 1.5 The scope of our commitments in this policy should be interpreted reasonably - they mainly relate to activities and services in Wales or which are delivered to people living in Wales (although employees and clients from outside of Wales are encouraged to use the Welsh language) and are also limited to activities and services which we are able to control or influence.
- 1.6 This Policy is available to every member of staff on the Firm's intranet regardless of their contractual location.

2 WELSH LANGUAGE CHAMPION AND SUPPORT

- 2.1 The Firm has appointed (and will endeavour to continue to appoint) a member of staff as a Welsh Language Champion. The Welsh Language Champion shall report to the Firm's Central Operations Team ("COT") and shall be responsible for:
- 2.1.1 reviewing this Policy and the Firm's use of the Welsh language;
- 2.1.2 monitoring the implementation of this Policy by the Firm and preparing an annual report to the COT;
- 2.1.3 promoting and increasing the availability of Welsh language services offered by the Firm;
- 2.1.4 increasing the opportunities to use the Welsh language in the workplace; and
- 2.1.5 championing the use of the Welsh language both internally within the Firm and externally to its clients and other contacts.

2.2 The current Welsh Language Champion is:

Tomos Lewis – Legal Director

tomos.lewis@blakemorgan.co.uk

029 2068 6145

07990 030 728

2.3 This policy is supported at the highest level in the Firm and has been approved by the Firm's Operations Board and endorsed by the Strategy Board (which includes Welsh language speakers).

2.4 The Firm will work towards achieving the Welsh Language Commissioner's "Cynnig Cymraeg" (the "Welsh Language Offering") as soon as possible.

3 COMMUNICATING WITH OUR CLIENTS AND COLLEAGUES AND THE WIDER COMMUNITY

3.1 We recognise that our clients and each one of our colleagues have the freedom to use the Welsh language should they wish to do so. We expect staff to respect the linguistic preferences of our clients and their colleagues.

3.2 We will support and facilitate the use of Welsh and English by our clients and by our colleagues in the workplace by creating opportunities for clients and staff to use Welsh regularly should they wish.

3.3 The Firm has a number of employees across most practice areas who are fluent in Welsh and are able to deliver services to clients to the same standard in English or Welsh.

3.4 Our clients can request to speak to a Welsh speaker and we will always do our best to accommodate their needs. If no Welsh speaker who is qualified to deal with the query is available straightaway, we will arrange for a Welsh speaker to contact the client as soon as possible.

3.5 Our clients are welcome to write to us in Welsh and, when they do, our response will also be in Welsh. Our response will not be delayed as a result.

3.6 We are keen to support events in our communities which encourage the use of the Welsh language.

4 IDENTIFYING AND DEVELOPING OUR WELSH LANGUAGE SKILLSET

4.1 We welcome and encourage the use of the Welsh language by our colleagues who are fluent in both languages or are Welsh learners.

4.2 We keep a record of employees who speak Welsh and their fluency so that we can offer legal advice to those who prefer to converse or receive written advice in Welsh.

- 4.3 We share information about each employees' Welsh language skills within the workplace, so that we can direct Welsh language enquiries to the appropriate person as well as externally (including publishing such details on the Firm's website at www.blakemorgan.co.uk).
- 4.4 We offer the opportunity for all employees to learn Welsh, regardless of their main office location. Our Welsh Lessons are taught using video conferencing software and we provide for all levels of fluency, allowing anyone to take part.
- 4.5 We welcome applications in Welsh and we encourage Welsh speaking colleagues to join us. Where possible, we will also conduct interviews for our vacancies in Welsh if requested.
- 4.6 To help colleagues and clients identify employees who speak Welsh, the Firm encourage Welsh speaking staff (including those who are learning Welsh) to make use of the Welsh Language Commissioner's "Iaith Gwaith" ("Working Welsh") scheme and its orange speech bubble badge to show that they are Welsh speakers. This will help show where the Welsh language can be used in day-to-day contexts, encouraging speakers and learners alike to use their Welsh more often. This may include wearing a Iaith Gwaith lanyard holder in the workplace, including the Iaith Gwaith logo on the individual's website profile or including either of the following pieces of text in the individual's e-mail signature:



Hapus i ymateb yn y Gymraeg neu yn Saesneg | Happy to respond in Welsh or English

or



Rwyf yn dysgu Cymraeg. Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu yn Saesneg. | I am learning Welsh. Please write to me in Welsh or in English.

5 WEBSITE, IT AND SOCIAL MEDIA

- 5.1 Our website already contains some pages in Welsh and we intend to increase the number of pages we have in Welsh by introducing a Welsh language page which details our Welsh language offering
- 5.2 We allow our staff to install a Welsh language interface for software they use which has a recognised Welsh language interface (such as Microsoft Office).
- 5.3 We will use more Welsh in our social media, where appropriate.

6 DOCUMENTATION AND PROMOTIONAL MATERIAL

- 6.1 The Firm will seek to produce Welsh language versions of relevant documents and information where appropriate. For example, the Firm will seek to ensure that letters of engagement and terms of business are available in Welsh where requested by clients.
- 6.2 Promotional material and press releases will be produced bilingually where appropriate.

7 DEALING WITH THE MEDIA

7.1 Subject to compliance with the Firm's Social Media Policy, the Firm will, where appropriate to the subject matter, release press releases and/or statements for print and/or broadcast in both Welsh and English as well as, where available, make available a Welsh speaker for TV and/or radio interviews.

8 ADVERTISING AND SIGNAGE

8.1 Where new signage is installed (or old signage replaced) in our Cardiff office, we will seek to ensure that such signs are fully bilingual where appropriate and subject to compliance with any legal or regulatory requirements for such signs.

9 MONITORING AND REVIEW

9.1 The Firm reserves the right to vary the terms and conditions set out in this Policy.

9.2 This policy will be kept under review and will be monitored by the HR Team at regular intervals to ensure its fairness and effectiveness.

9.3 Any queries in respect of interpretation of this policy or suggestions for improvement should be directed to the Welsh Language Champion or a member of the Cardiff Office Group in the first instance.